

CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Technegol)

MANYLEB

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Crynodeb o newidiadau

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen

DRAFT

Cynnwys

1. Trosolwg o'r Cymhwyster	3
1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?	4
1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniadau Technegol)	4
1.3 Amcanion y cymhwyster	5
1.4 Gofynion dysgu blaenorol	5
1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?	5
2. Cipolwg ar y fanyleb	6
2.1 Cynnwys y Pwnc	6
2.2 Trosolwg o'r Asesu	7
2.3 Amcanion Asesu	7
3. Unedau	8
3.1 Fformat yr unedau	8
3.2 Ymhelaethiad	8
Uned 1	9
1.1 Ymchwil ac ymarfer	11
1.2 Perfformiad	12
1.3 Adolygu ac Adlewyrchu	13
Uned 2	14
2.1 Archwilio a datblygu	16
2.2 Cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i greu gwaith gwreiddiol	17
2.3 Adolygu, myfyrio a mireinio	20
Uned 3	21
3.1 Cynllunio gwaith perfformio	22
3.2 Hyrwyddo a chynnig syniad	23
3.3 Gwerthuso a myfyrio	23
4. Asesu	25
4.1 Asesiad dan reolaeth mewnol (Unedau 1 a 2)	25
4.2 Asesiad dan reolaeth allanol (Uned 3)	25
4.3 Asesiad synoptig	25
4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr	26
4.5 Rheoli'r asesiadau	26
5. Orlau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso	27
5.1 Orlau Dysgu dan Arweiniad	27
5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso	27

6. Cofrestriadau.....	28
6.1 Cymeradwyo Canolfannau.....	28
6.2 Dulliau Cofrestru	28
Cofrestru ar gyfer unedau.....	28
Cofrestru ar gyfer y cymhwyster	29
Codau cofrestru	29
7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl	30
8. Trefniadau ailsefyll	31
8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio	31
8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio.....	31
8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau	31
9. Camymddwyn.....	32
9.1 Atal camymddwyn	32

1. Trosolwg o'r Cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	Celfyddydau Perfformio
Math o Gymhwyster yr AA	Dyfarniad Technegol
RhC Ofqual	603/7020/8
Cod Cymhwyster CBAC	
Cod Disgownt yr AA	
Grŵp oedran cymeradwy	14+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2022
Ardystio am y tro cyntaf	Ionawr 2024
Dogfennau Allweddol	Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw Gweinyddu
Canllawiau Addysgu	Canllaw Asesu Canllaw Cyflwyno Canllawiau Addysgu Uned 1 Canllawiau Addysgu Uned 2 Canllawiau Addysgu Uned 3

1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Bwriad cymwysterau CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau galwedigaethol ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn yn rhan o raglen astudio eang.

Cawsant eu llunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real.

Mae'r cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) ar gael mewn 9 maes pwnc. Ar y rhestr isod, mae unrhyw bynciau â * yn bodloni gofynion Ofqual a'r AA ar gyfer cymwysterau'r tabl perfformiad CA4.

- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg
- Digwyddiadau
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- TGCh
- Celfyddydau Perfformio
- Busnes Adwerthu
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniadau Technegol)

Mae Cyngor y Celfyddydau (2018) wedi rhybuddio bod 'gostyngiad yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig cyrsiau celfyddydau creadigol a dylunio, y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio'r pynciau hyn a diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol ar yrfaedd yn y sector creadigol a diwylliannol yn cael eu hystyried yn bygwth datblygiad talent ar y gweill'.¹ Mae *Society of London Theatre* ac *UK Theatre Association* (2017) hefyd wedi pwysleisio y bydd yn hanfodol i'r sector adeiladu ar ei lwyddiant yn y cyfnod ar ôl yr Undeb Ewropeaidd gyda thalent 'cartref' a gyda phartneriaethau parhaus i sicrhau ein bod yn cadw ein henw da ledled y byd.²

Yn 2015 roedd y sector cerddoriaeth, perfformio a chelfyddydau gweledol yn werth £5.4 biliwn y flwyddyn i economi'r DU. Roedd hyn yn cynrychioli twf o bron i 10% rhwng 2012 a 2013. Roedd y cynnydd o 10% deirgwaith yn fwy na'r cynnydd yn economi ehangach y DU yn ystod yr un cyfnod. Dangosodd y ffigurau gynnydd o 46% yn y sector cerddoriaeth a chelfyddydau perfformio ers 2008.³ Yn 2018, cyflogwyd 77,000 o bobl yn y celfyddydau perfformio. Roedd nifer y gweithwyr yn y

¹ <https://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/SkillsNeedsAssessment.pdf>

² <https://uktheatre.org/EasySiteWeb/GatewayLink.aspx?allid=549583>

³ <https://www.thestage.co.uk/news/2015/performing-arts-contributes-5-4-billion-year-uk-economy/>

celfyddydau perfformio wedi cynyddu o 59,000 yn 2013.⁴ Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cymwysterau wrth ddatblygu sgiliau celfyddydau perfformio pobl ifanc.

1.3 Amcanion y cymhwyster

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran gyrfa neu astudio pellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

1.4 Gofynion dysgu blaenorol

Er nad oes gofynion cofrestru ffurfiol, byddai'r sgiliau dysgu a'r tueddfryd canlynol yn ddefnyddiol i ddysgwyr: hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd, rhywfaint o allu i weithio â chyfrifiaduron a chymhelliant i weithio'n annibynnol.

1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n cynnwys tair uned gorfodol:

Uned	Teitl	Asesu	Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)
1	Perfformio	Mewnol	36
2	Creu	Mewnol	36
3	Celfyddydau Perfformio ar Waith	Allanol	48

⁴ <https://www.statista.com/statistics/384607/employment-in-performing-arts-in-the-united-kingdom-uk/>

2. Cipolwg ar y fanyleb

2.1 Cynnwys y Pwnc

Mae Uned 1 yn galluogi dysgwyr i gael gwybodaeth a dealltwriaeth gyfannol o'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i atgynhyrchu darn(au) o waith proffesiynol/cyhoeddedig sydd eisoes yn bodoli.

Gellir cwblhau'r uned hon drwy unrhyw **un** o'r disgyblaethau canlynol:

- Drama
- Cerddoriaeth
- Technoleg Cerddoriaeth
- Theatr Gerdd (tudalen 9).

Mae Uned 2 yn galluogi dysgwyr i ennill, datblygu a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i greu a mireinio gwaith gwreiddiol yn y celfyddydau perfformio.

Gellir cwblhau'r uned hon drwy unrhyw **un** o'r disgyblaethau canlynol o Perfformiad **neu** Cynhyrchu:

Disgyblaethau perfformio

- Drama ddyfeisiedig
- Coreograffi
- Cyfansoddi
- Cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg.

Disgyblaethau cynhyrchu

- Cynllunio gwisgoedd
- Cynllunio goleuo
- Cynllunio sain
- Cynllunio colur a gwallt
- Cynllunio set (tudalen 14).

Mae Uned 3 yn cyflwyno dysgwyr i feysydd o'r celfyddydau perfformio y mae angen eu hystyried wrth ymateb i gomisiwn diwydiant (tudalen 21).

2.2 Trosolwg o'r Asesu

Crynodeb o'r Asesu	
Uned 1: Perfformio Asesiad dan Reolaeth: 10 awr 30% o'r cymhwyster	60 marc
Bydd briff yr aseiniad, a fydd yn cynnwys senario a sawl tasg, ar gael drwy Wefan Ddiogel CBAC, a bydd yn aros yr un fath am hyd oes y fanyleb.	
Uned 2: Creu Asesiad dan Reolaeth: 10 awr 30% o'r cymhwyster	60 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau, ar gael drwy Wefan Ddiogel CBAC.	
Uned 3: Celfyddydau Perfformio ar Waith Asesiad dan reolaeth allanol: 20 awr 40% o'r cymhwyster	80 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau, ar gael drwy Wefan Ddiogel CBAC.	

2.3 Amcanion Asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.

AA2

Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chyflawni ymchwiliadau a thasgau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	5%	15%	10%	30%
Uned 2	5%	15%	10%	30%
Uned 3	10%	20%	10%	40%
Pwysoliad cyffredinol	20%	50%	30%	100%

3. Unedau

3.1 Fformat yr unedau

Teitl yr uned:	Crynodeb fer o gynnwys yr uned.
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):	Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwyliwr. Hefyd, mae'n cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, arolygwr neu oruchwyliwr. Dyrannwyd oriau dysgu dan arweiniad i bob uned i gefnogi'r gwaith cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn, ac argymhelliad felly yw nifer yr oriau i bob uned.
Cyd-destun galwedigaethol:	Sail resymegol alwedigaethol ar gyfer cynnwys yr uned.
Trosolwg o'r uned:	Crynodeb o gynnwys yr uned. Y rhan hon sy'n rhoi'r uned yn ei chyd-destun ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn y mae'r uned yn ei ddysgu.
Testunau:	Yn cynnwys rhestr o'r testunau y mae'r uned yn ymdrin â nhw.
Asesiad:	Crynodeb o ddull asesu'r uned.

3.2 Ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- mae 'Dylai dysgwyr wybod' wedi'i ddefnyddio ar gyfer adalw ffeithiau fel: deddfwriaeth a diffiniadau.
- mae 'Dylai dysgwyr wybod a deall' wedi'i ddefnyddio ar gyfer mwyafrif cynnwys yr uned lle mae angen i'r wybodaeth arwain at ymdeimlad o ddealltwriaeth.
- mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' wedi'i ddefnyddio pan fo cyfanswm y cynnwys yn eithaf helaeth, ac nid oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd arno yn fanwl.
- mae 'Dylai dysgwyr allu' wedi'i ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth at senario neu sefyllfa ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn tair uned ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn manylu ar y cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn ymhelaethu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Nid awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad yn y golofn ar y dde yn cwmpasu'r holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', neu 'fel'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr.

Uned 1

Teitl yr uned	Perfformio
Cod cofrestru'r uned	
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)	36
Cyd-destun galwedigaethol	Mae pobl greadigol yn atgynhyrchu gwaith mewn amrywiaeth enfawr o wahanol ddisgyblaethau, weithiau fel adfywiadau o ddramâu neu sioeau cerdd, ailgymysgiadau o ganeuon gwreiddiol a fersiynau cyfyr. Maent yn gweithio gyda darn o gerddoriaeth, testun neu goreograffi sydd eisoes yn bodoli ac yn ymgymryd â phroses ymchwil ac ymarfer er mwyn atgynhyrchu'r gwaith i safon broffesiynol. Er enghraifft, gall cerddor gynhyrchu fersiwn cyfyr o gân sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cyngerdd neu gig, neu efallai y bydd disgwyl i ddawnsiwr addysgu coreograffi sydd eisoes yn bodoli i aelod newydd o gast ar gyfer cynhyrchiad sy'n rhedeg am gyfnod hir. P'un a yw darn o destun, cerddoriaeth neu goreograffi sydd eisoes yn bodoli yn cael ei atgynhyrchu, dilynir proses a fydd yn cynnwys ymchwil ac ymarfer er mwyn datblygu'r perfformiad ar gyfer cynulleidfa, yna derbynnir adborth gan fyfyrwyr ar y darn wedi'i gwblhau, a mireinio'r perfformiad ymhellach ar sail hyn.
Trosolwg o'r uned	Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth gyfannol o'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i atgynhyrchu darn o waith proffesiynol/cyhoeddedig sydd eisoes yn bodoli. Gellir cwblhau'r uned hon drwy unrhyw un o'r disgyblaethau canlynol: • Drama • Cerddoriaeth • Technoleg Cerddoriaeth • Theatr Gerdd (bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos eu sgiliau mewn o leiaf dwy o'r tair disgyblaeth o ganu, dawnsio ac actio).
Testunau	1.1 Ymchwil ac ymarfer 1.2 Perfformiad 1.3 Adolygu ac adlewyrchu
Asesu	Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth.

Hyd: Bydd disgwyl i ymgeiswyr berfformio gwaith sydd eisoes yn bodoli. Gallai hyn fod yn:

1. Un darn neu bortffolio o ddarnau.
2. Perfformio'n unigol neu mewn grwpiau o hyd at 10.
 - Mae angen i unigolion berfformio am rhwng 3 a 6 munud. O fewn perfformiad pâr/grŵp mae'r amseriad unigol hwn yn aros yr un fath. Fodd bynnag, gall unigolion berfformio ar yr un pryd (e.e. gallai deuawd gyda dau unigolyn yn canu ar yr un pryd fod yn 3 munud o hyd).

Nifer y marciau: 60

Fformat: Bydd briff yr aseiniad, a fydd yn cynnwys senario a sawl tasg, yn aros yr un fath am hyd oes y fanyleb ac yn cael ei roi i ganolfannau mewn pecyn Asesu Ymgeisydd drwy Wefan Ddiogel CBAC. Ni fwriedir i dasgau newid am hyd oes y cymhwyster. Os dewisodd ymgeiswyr ailsefyll yr uned hon yn ddiweddarach, rhaid iddynt ddewis darn(au) gwreiddiol arall o waith i'w berfformio.

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cofnod/portffolio o waith a recordiadau sy'n amlinellu cynnydd mewn tri cham:

- dechrau'r broses
- yn ystod y broses
- y perfformiad terfynol.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 10 awr.

Bydd angen gwneud gweithgareddau ymarfer ac ymchwilio cyn gwneud rhai o'r tasgau hyn (e.e. ymchwilio i'r darn(au) o'u dewis yn ogystal ag ymarfer a fydd yn cael ei ddogfennu yn eu dyddiadur myfyriol). Mae angen i'r gweithgareddau hyn ddigwydd y tu allan i'r asesiad.

1.1 Ymchwil ac ymarfer

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

1.1.1 Ymchwil

1.1.2 Ymarfer/paratoi

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.1.1 Ymchwil	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o amrywiaeth o ymchwil sy'n ofynnol i ddeall cefndir darn sy'n bodoli eisoes fel: • yr awdur/cyfansoddwr/coreograffydd gwreiddiol a'u bwriadau ar gyfer y darn • naws ac arddull/genre a fwriadwyd • themâu a syniadau • gofod perfformio • pwrpas • y berthynas rhwng y gynulleidfa a'r perfformiwr • cynulleidfa darged wreiddiol • cynulleidfa darged newydd. Ar gyfer pob un o'r uchod dylai dysgwyr allu: • adolygu eu canfyddiadau • ystyried sut bydd hyn yn effeithio ar eu perfformiad. Dylai'r ymchwil hwn arwain at fwriad/cynllun clir ar gyfer y perfformiad.
1.1.2 Ymarfer/paratoi	Dylai dysgwyr wybod a deall y dulliau a ddefnyddir i gynllunio a dysgu o ymarferiadau. Rhaid i hyn gynnwys: • amserlen ymarfer • defnyddio dyddiadur myfyriol • cynllunio gweithredu • paratoi ar gyfer ymarfer i ffwrdd o'r gofod ymarfer (e.e. dysgu llinellau/ymgyfarwyddo â sgôr/ymarfer symudiadau dawns, paratoi rhithofferynnau/rhithseiniau) • ymateb i gyfarwyddyd/coreograffi • sefydlu a chofnodi blocio; gwneud nodiadau ar sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau • mireinio • gwahanol fathau o ymarfer (e.e. ymarfer band, sitzprobe, rhediad oediog, rhediad technegol, ymarfer gwisgoeddd) • arsylwi gofynion iechyd a diogelwch priodol.

1.2 Perfformiad

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau perfformio yn y maes arbenigedd o'u dewis.

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.2.1 Sgiliau perfformio	Dylai dysgwyr allu datblygu a chyflwyno'r sgiliau canlynol ym mhob perfformiad: • cywirdeb • cydsymud • cyfathrebu • rheolaeth • delio â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau • dehongli. Amlinellir isod y sgiliau unigol sy'n ofynnol o ddisgyblaethau dewisol ymgeiswyr: Drama: • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder o ran arddull/genre actio a ddewiswyd • defnyddio symudiadau ac ystumiau • defnyddio llais • ymateb i destun. Cerddoriaeth: • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw • dynameg a chymbwysedd • mynegiant • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.

	Technoleg cerddoriaeth: • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd • defnydd effeithiol o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad neu gyflwyniad: wedi'i recordio a/neu'n fyw • mynegiant • cymysgu a chydamseru curiadau. Theatr Gerdd: • dehongli a datblygu cymeriad • Canu: techneg lleisiol; actio drwy gân • Dawnsio: techneg dawns, cymhwyso arddull(iau) • Actio: symud, llais, cymeriad • rhyng-gysylltiad rhwng y tair disgyblaeth.
--	---

1.3 Adolygu ac Adlewyrchu

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

1.3.1 Adolygu

1.3.2 Adlewyrchu

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.3.1 Adolygu	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • ymateb i adborth (e.e. gan gynulleidfa, cyfoedion, athro, gweithwyr proffesiynol eraill) • adolygu a oedd y perfformiad wedi cyflawni ei nod.
1.3.2 Myfyrio	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • creu cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • cyfeirio at arferion gwaith proffesiynol, gan gynnwys iechyd a diogelwch priodol.

Uned 2

Teitl yr uned	Creu
Cod cofrestru'r uned	
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)	36
Cyd-destun galwedigaethol	Mae pobl greadigol yn gweithio mewn amrywiaeth enfawr o wahanol ddisgyblaethau ac amgylcheddau, weithiau fel unigolion ac weithiau yn rhan o dîm. Gallant weithio i friff o'u cynllun eu hunain neu greu rhywbeth i friff a gomisiynwyd gan rywun arall. Er enghraifft, gall coreograffydd lunio dawnys ar gyfer darn o theatr neu gall cymdeithas gorawl gomisiynu cyfansoddwr i gyfansoddi darn ar gyfer digwyddiad penodol. P'un ai'n llunio cyflwyniad dramatig newydd, yn coreograffu dawnys neu'n cyfansoddi darn o gerddoriaeth, dilynir proses a fydd yn cynnwys ymchwilio ac archwilio'r arddull i sicrhau bod y darn/au yn bodloni'r briff, llunio a datblygu syniadau i gynhyrchu'r darn, derbyn adborth a myfyrion ar y darn wedi'i gwblhau, a mireinio'r darn ymhellach yn sgil hyn.
Trosolwg o'r uned	Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn ennill, datblygu a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i greu a mireinio gwaith gwreiddiol yn y celfyddydau perfformio. Gellir cwblhau'r uned hon drwy unrhyw un o'r disgyblaethau canlynol o Perfformiad neu Cynhyrchu: Disgyblaethau perfformio • Drama ddyfeisiedig • Coreograffi • Cyfansoddi • Cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg. Disgyblaethau cynhyrchu • Cynllunio gwisgoedd (ar gyfer dau gymeriad o leiaf) • Cynllunio goleuo • Cynllunio sain • Cynllunio colur a gwallt (ar gyfer dau gymeriad o leiaf) • Cynllunio set.
Testunau	2.1 Archwilio a datblygu 2.2 Cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i greu gwaith gwreiddiol 2.3 Adolygu, myfyrion a mireinio

Asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth.

Hyd: Bydd gofyn i ymgeiswyr berfformio/cyflwyno gwaith gwreiddiol. Gallai hyn fod yn:

1. Un darn neu bortffolio o ddarnau.
2. Perfformiad unigol neu mewn grwpiau o hyd at 10.
 - Gall unigolion ddefnyddio pobl eraill i berfformio yn y darn os oes angen, fel cyfranogwyr nad ydynt yn cael eu hasesu.
 - Gall ymgeiswyr weithio'n rhan o grŵp ond bydd pob ymgeisydd yn cael ei asesu ar ei gyfraniad unigol, y mae'n rhaid ei gofnodi'n glir yn ei log datblygu.
 - Mae angen i ymgeiswyr sy'n dewis o'r categori perfformio lunio darn rhwng 3 a 10 munud o hyd.
 - Mae angen i ymgeiswyr sy'n dewis o'r categori cynhyrchu gyflwyno eu syniadau i gynulleidfa.

Nifer y marciau: 60

Fformat: Bydd ymgeiswyr yn ymgymryd â chyfres o dasgau penodol sydd i'w cymhwyso i gyd-destun penodedig a osodir gan CBAC bob blwyddyn ac a roddir i ganolfannau mewn pecyn asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC.

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cofnod/portffolio o waith a recordiadau sy'n amlinellu cynnydd mewn tri cham:

- dechrau'r broses
- datblygiad cynnyrch/perfformiad
- perfformiad/cyflwyniad.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 10 awr.

Bydd angen gwneud gweithgareddau ymarfer ac ymchwilio cyn gwneud rhai o'r tasgau hyn (e.e. ystyried yr elfennau a ystyriwyd wrth ysgrifennu eu briff yn ogystal ag ymchwilio a datblygu syniadau a fydd yn cael eu cofnodi yn eu log datblygu). Mae angen i'r gweithgareddau hyn ddigwydd y tu allan i'r asesiad.

2.1 Archwilio a datblygu

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

2.1.1 Archwilio

2.1.2 Datblygu

mewn ymateb i friff creadigol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.1.1 Archwilio	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r cydrannau canlynol i'w harchwilio wrth ymateb i friff creadigol, fel: • y pwrpas a fwriadwyd • yr effaith a fwriadwyd • y gofod perfformio/achlysur a fwriadwyd • y gynulleidfa a fwriadwyd • themâu a syniadau (e.e. ystyried ffactorau cymdeithasol neu hanesyddol) • maint y darn(au) (e.e. nifer y perfformwyr) • eu diddordebau eu hunain a'u profiad blaenorol • adnoddau sydd ar gael (e.e. meddalwedd, adnoddau ffisegol) • gwahanol arddulliau a'u gofynion • gwaith o leiaf ddau ymarferydd a enwir.
2.1.2 Datblygu	Ar gyfer pob disgyblaeth a ddewisir, o un categori, dylai dysgwyr allu archwilio'r canlynol wrth ddatblygu eu darn gwreiddiol: Categori perfformio • Drama ddyfeisiedig: llais, symud, ymadweithio; sgriptio, blocio, datblygu trwy waith byrffyr, strwythur naratif • Coreograffi: symudiadau, gofod, dynameg, perthnasoedd, motiff, naratif, symud fel un, canon, cwestiwn ac ateb, dwyran/teiran, brawddeg • Cyfansoddi: melodi, harmoni, cyweiredd, ffurf ac adeiledd, dynameg, soniaredd, gwead, tempo, rhythm, mesur, cynniad, sgorau/dalen ganllaw • Cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg: elfennau o gerddoriaeth, effeithiau, samplu, panio, dilyniannu, sain byw a sain wedi'i recordio; sgorau/dalenni canllaw, recordiadau. Categori cynhyrchu • Cynllunio gwisgoedd: ystyried cymeriad, defnydd o ddefnyddiau, cyfnod ac arddull, siâp, gwead, lliw, mesur perfformwyr, cyrchu a llogi, gwnïo/cydod • Cynllunio goleuo: defnydd o liw/gobo, effeithiau, creu lleoliad(au), naws ac awyrgylch, effeithiau goleuo ymarferol, arddull, ffocws, ongl, gwahanol fathau o lusern, defnydd o offer rheoli

	• Cynllunio sain: naws ac awyrgylch, creu lleoliad(au), arddull, sain wedi'i recordio, sain byw, sain gynefin ac anghynefin, mwyhau'r llais, cyrchu, golygu, effeithiau, effeithiau sain ymarferol, defnydd o offer • Cynllunio colur a gwallt: dadansoddi cymeriad, defnydd o ddeunyddiau, defnydd o offer, defnydd o dechnegau gosod (e.e. aroleuadau, graddliwio, pwysleisio, cysgodi'r wyneb, prosthetigau), effeithiau arbennig, dadansoddi wyneb, cynllunio wigiau/gwallt • Cynllunio set: dewis gosodiad llwyfan a'r goblygiadau ar y cynllun, creu lleoliad(au), dodrefn, prif bropiau, defnydd o ddefnyddiau, dulliau adeiladu, arddull, siâp, lliw, graddfa, gwead, lefelau, llinellau gweld.
--	--

2.2 Cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i greu gwaith gwreiddiol

Dan y testun hwn bydd y dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i greu darnau unigol o waith celfyddydau perfformio ac yn cynhyrchu un darn gwreiddiol neu bortffolio o ddarnau gwreiddiol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.2.1 Creu gwaith gwreiddiol	Dylai dysgwyr allu datblygu a chyflwyno'r sgiliau canlynol ar gyfer y ddisgyblaeth o'u dewis: • cyfathrebu • creadigrwydd (gan gynnwys ansawdd syniadau gwreiddiol) • datblygu syniadau • iechyd a diogelwch priodol. Amlinellir isod y sgiliau unigol sy'n ofynnol o ddisgyblaethau dewisol ymgeiswyr, sy'n adeiladu ar wybodaeth am dechnegau a chonfensiynau yn 2.1.2: Disgyblaethau perfformio Drama ddyfeisiedig: • gwybodaeth a'r defnydd o brosesau dyfeisio • cyfathrebu'r cymeriad • defnyddio symudiadau ac ystumiau • defnyddio llais ar gyfer cymeriad • ymadweithio â pherfformwyr eraill (os yw'n berthnasol). Coreograffi: • gwybodaeth a'r defnydd o brosesau coreograffig • dehongli/defnyddio cerddoriaeth • geirfa symudiadau • rheoli'r corff ac ymwybyddiaeth ofodol

- rhythm ac amseru
- ymadweithio â pherfformwyr eraill (os yw'n berthnasol).

Cyfansoddi:

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cyfansoddi
- ystyried elfennau cerddoriaeth
- ystyried arddull
- gwybodaeth a'r defnydd o adnoddau offerynnol/lleisiol.

Cyfansoddi gan ddefnyddio technoleg:

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cyfansoddi
- ystyried elfennau cerddoriaeth
- ystyried arddull
- gwybodaeth a'r defnydd o dechnoleg fel adnodd i addasu sain.

Disgyblaethau Cynhyrchu

Cynllunio gwisgoedd (ar gyfer dau gymeriad o leiaf):

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cynllunio gwisgoedd
- addasrwydd gwisgoedd
- cyfres o ddyluniadau gan gynnwys manylion defnyddiau a mesuriadau ac ati sy'n arwain at y dyluniad terfynol
- ymarferoldeb: defnydd o ddefnyddiau, ystyried cymeriad ac arddull y darn, siâp, gwead, lliw, addasrwydd gwisgoedd.

Cynllunio goleuo:

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cynllunio goleuo
- creu'r plot goleuo (ar bapur neu'n ddigidol)
- gwybodaeth am sut i drefnu rig goleuo
- gwybodaeth am y broses blotio
- gallu gweithredu'r system yn ystod perfformiad.

Cynllunio sain:

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cynllunio sain
- creu'r plot sain
- gwybodaeth am sut i drefnu rig sain
- gwybodaeth am y broses blotio sain
- gallu gweithredu'r system yn ystod perfformiad.

Cynllunio colur a gwallt (ar gyfer dau gymeriad o leiaf):

- gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cynllunio colur a gwallt
- cyfres o ddyluniadau gan gynnwys manylion defnyddiau a mesuriadau ac ati sy'n arwain at y dyluniad terfynol

	• ymarferoldeb • defnydd o ddefnyddiau, ystyried cymeriad ac arddull, siâp, gwead, lliw. Cynllunio set: • gwybodaeth a'r defnydd o brosesau cynllunio set • cyfres o ddyluniadau gan gynnwys manylion graddfa, defnyddiau a mesuriadau ac ati sy'n arwain at y dyluniad terfynol • model o'r dyluniad wrth raddfa (go iawn neu wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur) yn cynnwys yr holl elfennau allweddol, dodrefn a phropiau mawr • defnydd o ddefnyddiau, ystyried sgript/cynhyrchiad ac arddull, siâp, gwead, lliw.
--	--

2.3 Adolygu, myfyrio a mireinio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

2.3.1 Gwerthuso gwaith gwreiddiol

2.3.2 Mireinio gwaith gwreiddiol

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.3.1 Gwerthuso gwaith gwreiddiol	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: - ymateb i adborth gan weithwyr proffesiynol (e.e. yr athro, dylunwyr arbenigol) - ymateb i adborth gan gyfoedion - ymateb i adborth cynulleidfa - gwerthuso llwyddiant y darn(au) gwreiddiol o ran y briff a grëwyd yn 2.1 - adolygu eu sgiliau eu hunain a sut y cafodd rhain eu defnyddio a'u henghreiffio.
2.3.2 Mireinio gwaith gwreiddiol	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: ymateb i'r adborth a'r canfyddiadau hunanwerthuso drwy esbonio sut y gellir datblygu gwaith a chyfiawnhau pam na fyddai adborth penodol yn cael ei weithredu.

Uned 3

Teitl yr uned	Celfyddydau Perfformio ar Waith
Cod cofrestru'r uned	
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)	48
Cyd-destun galwedigaethol	Rhoddir cyfle i bobl greadigol gynllunio a chreu gwahanol ddarnau o waith drwy ymateb i gomisiynau'r diwydiant. Byddant yn gweithio i friff a gomisiynwyd gan sefydliad celfyddydol i gynllunio perfformiad. Er mwyn i artistiaid lwyddo i sicrhau comisiynau sy'n cael eu talu, bydd angen iddynt gael dealltwriaeth dda o'r sector busnes a rheoli'r diwydiant celfyddydau perfformio. Er enghraifft, gall cynhyrchydd gyflwyno cynnig busnes i fuddsoddwr neu gorff ariannu, neu gall cerddor hyrwyddo a hysbysebu ei gerddoriaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, er mwyn ariannu gwaith yn y dyfodol. Wrth weithio i gomisiwn, dilynrir proses gynllunio a fydd yn cynnwys ystyried y ffactorau a allai ddylanwadu ar greu darn newydd o waith, defnyddio offer marchnata i hyrwyddo darn newydd, yna adolygu datblygiad y comisiwn a myfyrir ar y darn i lywio projectau yn y dyfodol.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i feysydd o'r celfyddydau perfformio y mae angen eu hystyried wrth ymateb i gomisiwn diwydiant. Bydd angen i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am y sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i atgynhyrchu darn o waith proffesiynol/cyhoeddedig sydd eisoes yn bodoli o Uned 1 ochr yn ochr â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i greu a mireinio gwaith gwreiddiol o Uned 2.
Testunau	3.1 Cynllunio gwaith perfformio 3.2 Hyrwyddo a chynnig syniad 3.3 Gwerthuso a myfyrir
Asesu	Asesir yr uned hon yn allanol drwy asesiad dan reolaeth. Hyd: 20 awr asesiad dan reolaeth Nifer y marciau: 80 Fformat: Bydd ymgeiswyr yn ymgymryd â chyfres o dasgau penodol sydd i'w cymhwyso i gyd-destun penodedig a osodir gan CBAC ac a roddir i ganolfannau mewn pecyn asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC. Gall unigolion ddefnyddio pobl eraill fel rhan o'u henghreifftiau ymarferol os oes angen, fel cyfranogwyr nad ydynt yn cael eu hasesu. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster.

3.1 Cynllunio gwaith perfformio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

3.1.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar greu gwaith perfformio

3.1.2 Creu gwaith perfformio

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.1.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar greu gwaith perfformio	Dylai dysgwyr wybod a deall yr angen i ystyried: • cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol a hanesyddol • naws ac arddull/genre • gofod/lleoliad perfformio • themâu a syniadau • pwrpas • cynulleidfada darged • gwaith ymarferwyr sydd wedi creu gwaith perfformio • gwahanol fathau o sefydliadau sy'n creu gwaith perfformio.
3.1.2 Creu gwaith perfformio	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: • dewis disgyblaethau perfformio priodol • dewis disgyblaethau cynhyrchu priodol • y broses gynhyrchu (cynllunio, ymarfer a chyflwyno) • adnoddau a deunyddiau • cyllidebu • amserlenni cynhyrchu • rolau swyddi a chyfrifoldebau o fewn sefydliadau sy'n creu gwaith perfformio.

3.2 Hyrwyddo a chynnig syniad

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

3.2.1 Hyrwyddo

3.2.2 Cynnig syniad

Cynnwys

Ymhelaethiad

3.2.1

Hyrwyddo

Dylai dysgwyr wybod a deall:

- sut mae digwyddiadau'n cael eu hysbysebu a'u marchnata
- sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- amrywiaeth o adnoddau hysbysebu (e.e. hysbysebion, bilfyrrddau, taflenni cyhoeddusrwydd, posterï a llwyfannau aml-gyfrwng)
- amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo (e.e. ymgyrchoedd rhagflas, cyfweiliadau teledu a radio, digwyddiadau fflachdorf).

3.2.2

Cynnig syniad

Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd:

- sgiliau cyflwyno
- eglurder
- cyfathrebu
- defnyddio enghreifftiau ymarferol o ddisgyblaethau perfformio/cynhyrchu (e.e. darnau o berfformiad, cynlluniau cynhyrchu)
- defnydd o dôn.

3.3 Gwerthuso a myfyrio

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

3.2.1 Gwerthuso llwyddiant cynllunio, hyrwyddo a chynnig syniad

3.2.2 Adlewyrchu

Cynnwys

Ymhelaethiad

3.3.1

Gwerthuso llwyddiant cynllunio, hyrwyddo a chynnig syniad

Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:

- ymateb i adborth gan banel comisiynu
- gwerthuso'r gwaith o gynllunio'r digwyddiad
- gwerthuso'r gwaith o hyrwyddo'r digwyddiad
- gwerthuso'r gwaith o gynnig syniad am ddigwyddiad
- adolygu eu sgiliau eu hunain a sut y cafodd rhain eu defnyddio a'u henghreiffio.

3.3.2 Myfyrio	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • nodi'r cryfderau a'r meysydd o ddatblygiad personol at y dyfodol • nodi'r camau gweithredu a'r targedau ar gyfer cynlluniau creadigol yn y dyfodol.
-----------------------------	--

DRAFT

4. Asesu

4.1 Asesiad dan reolaeth mewnol (Unedau 1 a 2)

Asesir Unedau 1 a 2 drwy asesiad dan reolaeth mewnol a gyflwynir wedyn i'w gymedroli'n allanol. Gellir cyflwyno Unedau 1 a 2 ym mis Ionawr a Mai bob blwyddyn (cyflwyniad cyntaf ym mis Ionawr 2023). Rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau ar redeg asesiadau dan reolaeth sydd i'w gweld yn y Canllaw Gweinyddu ac ym mhob Canllaw Uned. I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith (y gall fod yn rhan o bolisi Asesiad Di-arholiad y ganolfan); bydd y polisi hwn yn cael ei wirio yn rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

4.2 Asesiad dan reolaeth allanol (Uned 3)

Uned 3: Bydd *Celfyddydau Perfformio ar Waith* yn cael ei asesu'n allanol. Bob blwyddyn bydd dau gyfnod asesu. Bydd y cyfnod asesu cyntaf ar gael rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr i'w gyflwyno ym mis Ionawr (cyflwyniad cyntaf ym mis Ionawr 2024). Bydd yr ail gyfnod asesu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, i'w gyflwyno ddiwedd mis Mehefin. Manylion yr asesiad allanol:

- mae CBAC yn darparu aseiniad gosod drwy wefan Ddiogel CBAC
- asesiad 20 awr o hyd wedi'i amseru a'i oruchwyllo
- gellir cynnal yr asesiad mewn blociau amser i'w pennu gan y ganolfan
- bydd pob asesiad yn cwmpasu'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned
- bydd pob asesiad allanol yn gofyn i'r ymgeisydd ddod â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyr drwy gydol yr uned ynghyd, gan wneud cysylltiadau rhyngddynt, a'u cymhwyso drwy ymateb i friff
- bydd yn cael ei raddio Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*
- mae'n rhaid dogfennu'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo ac amseru'r unedau a asesir yn allanol yn llawn yn unol â gofynion CBAC.

4.3 Asesiad synoptig

Uned synoptig yw Uned 3 sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a feithrinwyd ganddynt drwy Unedau 1 a 2 (gweler tudalen 21 am fanylion pellach).

4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr

Mae Pecynnau Asesu ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr i'w cael ar y wefan ddiogel i'w llwytho i lawr gan ganolfannau. Ni ddylai'r Pecynnau Ymgeiswyr fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad sef yn ystod mis Medi pob blwyddyn academiaidd. Mae Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'w cael ar wefan eduqas.co.uk.

4.5 Rheoli'r asesiadau

Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Canllaw Gweinyddu. Pedwar maes sy'n cael eu rheoli: goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, adnoddau a chydweithio. Mae'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a'r canllaw uned cyfatebol yn cynnwys manylion penodol i bob uned.

5. Orlau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

5.1 Orlau Dysgu dan Arweiniad

Mae orlau dysgu dan arweiniad (ODA) yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwylwr. Hefyd, mae'n cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, arolygwr neu oruchwylwr.

Cyfanswm yr Orlau Dysgu dan Arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster hwn yw 120 o orlau.

Caiff orlau dysgu dan arweiniad eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno yn y ganolfan. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn ac argymhelliad yn unig felly yw nifer yr orlau dysgu dan arweiniad i bob uned.

5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn orlau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr orlau dysgu dan arweiniad ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

180 o orlau yw'r cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- 120 o orlau o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o orlau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

6. Cofrestriadau

6.1 Cymeradwyo Canolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen(ni) cais perthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC ac unrhyw ofynion perthnasol gan y CGC.

Os yw eich canolfan eisoes yn cynnig cymwysterau cyffredinol ac wedi derbyn rhif canolfan (NCN), darllenwch yr Amodau i ganolfannau cofrestredig CBAC a chysylltwch â ni i ofyn am ffurflen gais.

Os ydych chi'n sefydliad newydd, darllenwch y dogfennau canlynol cyn cysylltu â ni i drafod eich canolfan arfaethedig:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy CGC
- Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau CGC
- Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC

Os hoffai eich canolfan gyflwyno cofrestriadau a chithau heb gofrestru fel canolfan eto, yna cysylltwch â'r adran Cefnogi Canolfannau yn CBAC canolfannau@cbac.co.uk i gael ffurflen gais. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon wedi'i llenwi i CBAC yn ddim llai na phum mis cyn y terfyn amser cofrestru perthnasol.

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC gadw at yr **Amodau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC a rheoliadau priodol y CGC**. Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r **datganiad blynyddol a anfonir gan NCN**. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atal ymrestriad CBAC.

6.2 Dulliau Cofrestru

Bydd cymhwyster CBAC Lefel 1/2 mewn Celfyddydau Perfformio ar gael i'w ardystio o fis Ionawr 2024.

Cofrestru ar gyfer unedau

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol sydd i'w gweld ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Codau cofrestru

		Cod Cofrestru
Uned 1	Asesiad mewnol	
Uned 2	Asesiad mewnol	
Uned 3	Asesiad allanol	
Cod Cyfnewid		

7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Galwedigaethol: Lefel 2 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Llwyddiant. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Uchafswm	Lefel 2				Lefel 1			
		D*	D	M	P	D*	D	M	P
Uned 1	90	81	72	63	54	45	36	27	18
Uned 2	90	81	72	63	54	45	36	27	18
Uned 3	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Cymhwyster	300	270	240	210	180	150	120	90	60

8. Trefniadau ailsefyll

8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned a asesir yn **fewnol** cyn ardystio ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol. Os dewisodd ymgeiswyr ailsefyll Uned 1 – Perfformio, rhaid iddynt ddewis darn(au) gwreiddiol arall o waith i'w berfformio.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnwied y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol**, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol, defnyddir yr uchaf o'r sgorau marciau unffurf naill ai o'r ymgais cychwynnol neu'r ymgais ailsefyll i gyfrifo'r radd gyffredinol. Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol** i fodloni gofyniad rheol derfynol y cymhwyster. Dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol.

8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau i'w gweld ar wefan Eduqas.

9. Camymddwyn

Mae gwybodaeth ynghylch Camymddwyn ar gael yn ein dogfen **Camymddwyn, Canllaw i Ganolfannau**.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o gamymddwyn honedig neu wirioneddol. Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cyngorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC **Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau**.

9.1 Atal camymddwyn

Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith heblaw eu gwaith hwy eu hunain
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith
- defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth
- cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthgyl llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lôn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

Ni ddylai ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngrwyd – <http://www.icq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-malpractice>

Rhaid i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu asesiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuo'n o gamymddwyn ei hun yn gamymddwyn.

Rhaid i staff addysgu:

- fod yn wyliadwros o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol
- rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i CBAC.